**EITEM AR YR AGENDA: 13**

## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU
## PANEL GWEITHREDOL

**21ain Mai 2007**

# CRYNODEB O WEITHGAREDD ARCHWILIO MEWNOL 2006/07 AC ASESIAD ANGHENION A CHYNLLUN ARCHWILIO DRAFFT AR GYFER 2007/08

**Adroddiad gan Mike Halstead,**
**Pennaeth Gwasanaethau Archwilio a Chaffael**

## Diben yr Adroddiad

**1.** I dderbyn crynodeb o waith Archwilio Mewnol ar gyfer 2006/07.

**2.** I gymeradwyo'r Asesiad Anghenion Archwilio Mewnol a Chynllun Archwilio Mewnol Drafft ar gyfer 2007/08.

## Gwybodaeth

**3.** O dan dermau Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005, wnaed o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 a Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, mae gan Awdurdodau Tân gyfrifoldeb statudol i gynnal "system ddigonol ac effeithiol o archwiliad mewnol."

**4.** Mae swyddogaeth yr Archwilio Mewnol yn cael ei wneud ar ran yr Awdurdod Tân gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac yn swyddogaeth arfarnu annibynnol ar gyfer adolygu gweithgareddau'r Awdurdod Tân ac Achub fel gwasanaeth i bob lefel o reolaeth.

**Gwybodaeth** *(parhad)*

**5.** Mae Rheoliadau Ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn nodi y dylid cyflwyno adroddiad o dan nawdd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru mewn perthynas â'r cynllun archwilio i'r flwyddyn ariannol sy'n dod ac adroddiad o berfformiad yn erbyn y cynllun gwreiddiol i'r flwyddyn ariannol flaenorol.

**6.** Mae'r cyfrifoldeb am lunio cynnwys y cynllun archwilio yn gorwedd gyda'r Prif Swyddog Tân a'r darparwyr archwiliad mewnol. Dylid paratoi'r cynllun mewn ymgynghoriad â'r Archwilydd Allanol.

**7.** Swyddfa Archwilio Cymru yw archwilydd allanol yr Awdurdod Tân ac Achub ar hyn o bryd.

**8.** Gellir rhannu'r gwaith archwilio mewnol i bedwar categori:

(a)**Archwiliadau Rheoleidd-dra**, sydd wedi eu cynllunio i sicrhau fod:-

- Yr holl incwm sy'n ddyledus i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cael ei gasglu, ei dderbyn, ei ddiogelu, ei fancio a'i gofnodi'n gywir.
- Yr holl daliadau a wneir wedi eu hawdurdodi'n gywir, o fewn y gyllideb ac yn unol â Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.
- Yr holl staff wedi cael eu penodi'n briodol ac yn derbyn tâl yn unol â thermau ac amodau eu penodiad.
- Fod gwerth am arian yn cael ei sicrhau am nwyddau a gwasanaethau a brynir.
- Fod eiddo ac asedau eraill yn cael eu cofnodi a'u diogelu'n gywir.

**Gwybodaeth** *(parhad)*

(b) Mae **Archwiliadau Systemau** wedi cael eu cynllunio i sicrhau fod yr holl systemau a gweithdrefnau sy'n gweithredu yn cynnwys rheolaethau digonol oddi mewn iddynt i atal twyll neu anghysondebau eraill, e.e. dylai o leiaf dau berson fod yn rhan o'r holl weithdrefnau.

(c) **Archwiliad Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebiadau.** Mae hyn yn cael ei ddefnyddio i brofi cywirdeb y systemau cyfrifiadurol mewn gweithrediad, ac hefyd trwy holiad o systemau cyfrifiadurol i gynorthwyo i ddarganfod twyll ac anghysondebau eraill.

(d) **Archwiliad Cytundeb,** sy'n cynnwys arfarniad ariannol ar ddarpar gontractwyr, archwiliad o reolaethau gweithredol i sicrhau cydymffurfiad gyda'r Rheolau Sefydlog Mewn Perthynas â Chytundeb ac archwiliad o sampl o gytundebau cyfredol a rhai sydd wedi eu cwblhau eisoes, yn cynnwys dilysu cyfrifon terfynol.

**9.** Paratoir adroddiad yn dilyn pob archwiliad mewnol fydd yn:-

- Nodi diben, sgôp, darganfyddiadau a chasgliadau'r archwiliad.
- Gwneud argymhellion i gyfeirio at unrhyw wendidau a adnabyddir.
- Cynnwys cynllun gweithredu i fonitro a chynorthwyo wrth weithredu'r argymhellion.
- Darparu er mwyn gwneud dilyniant o fewn cyfnod rhesymol o gyhoeddi'r adroddiad terfynol.

**ADOLYGIAD O WEITHGAREDD 2006/07**

**10.** Yn ystod 2006/07, darparwyd 50 o ddyddiau archwilio fel yn y cynllun archwilio strategol. Paratowyd tri adroddiad yn ystod y flwyddyn yn cynnwys :-

- **Gorsafoedd Rhan Amser – Conwy a Sir Ddinbych** – i adolygu, profi a rhoi adroddiad ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y rheoliadau mewnol sy'n cael eu gweithredu, mewn perthynas â thaliadau diffoddwyr tân rhan amser, awdurdodi pryniadau, cynnal stocrestrau gorsafoedd a chwblhau llyfrau log tanwydd, cynhaliaeth a defnydd cerbydau.
- **Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub** - gweithdrefnau i gynhyrchu, derbyn, cofnodi a bancio incwm, y gweithdrefnau i archebu a thalu am nwyddau a gwasanaethau, rheoli cyllidebau a chwblhau a rheoli stocrestrau.
- **Adolygiad Technoleg Gwybodaeth –** adolygiad o'r trefniadau diogelwch mewn perthynas â chyfleusterau'r Rhyngrwyd ac e-bost.

**11.** Mae atodlen sy'n rhoi barn archwilio o ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y prosesau rheolaeth fewnol mewn perthynas â'r holl asesiadau archwiliad ymgymerwyd â hwy yn ystod 2006/07 ynghlwm yn Atodiad A. Mae canlyniad pob archwiliad a'r gwerthusiad o ddigonolrwydd yr amgylchedd rheolaeth fewnol yn seiliedig ar y nifer o argymhellion a'u cyfraddau risg. Aseswyd yr holl archwiliadau yn ystod y flwyddyn fel rhai oedd yn darparu lefelau cadarnhaol o sicrwydd fod rheolaethau mewnol yn gweithredu'n effeithiol a bod risgiau'n cael eu rheoli'n briodol.

**12.** I gyfeirio at y gwendidau adnabuwyd yn ystod yr adolygiadau archwilio, gwnaed 19 o argymhellion.

**ADOLYGIAD O WEITHGAREDD 2006/07**

**13.** Cyhoeddwyd cynlluniau gweithredu y cytunwyd arnynt yn gosod yr ymateb i argymhellion yr archwiliad gyda'r Gorsafoedd Rhan Amser ac adroddiadau'r Pencadlys Awdurdod Tân ac Achub ac mae'r rhain wedi eu dychwelyd a'u cwblhau gan reolwyr yr Awdurdod Tân ac Achub gyda'r gweithredoedd i'w cymryd i sicrhau gweithredu'r argymhellion. Mewn perthynas â Thechnoleg Gwybodaeth – archwiliad adolygu Rheolaethau'r Rhyngrwyd ac E-bost, nid yw'r Adroddiad Terfynol wedi cael ei gyhoeddi hyd ddyddiad y Panel Gweithredol.

**14.** Mae crynodeb o weithgaredd archwilio ynghlwm yn Atodiad B ac yn dangos y dyraniad arfaethedig o adnoddau archwilio yn nhermau dyddiau gwaith dros adrannau a gwasanaethau ac yn cymharu gwaith gwirioneddol wnaed yn 2006/07 gyda'r cynllun. Mae'n hysbys o'r Grynodeb o Weithgaredd Archwilio Mewnol ar gyfer 2006/07 fod yr adolygiad o Systemau'r Gyflogres – Llawn Amser gynlluniwyd ar gyfer 2006/07 wedi'i ohirio i 2007/08 ar gais rheolwyr Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae archwiliad y gyflogres o ddechreuwyr, ymadawyr a diwygiadau i'w talu wedi'i amserlennu ar gyfer Mai 2007 ar gais Swyddfa Archwiliad Cymru. Bydd y profion archwilio yn seiliedig ar 2006/07 ac yn caniatáu i Swyddfa Archwilio Cymru osod dibyniad ar ein gwaith yn yr ardal yma ar gyfer 2006/07.

**BARN YR ARCHWILIAD**

**15.** Yn seiliedig ar y gwaith ymgymerwyd ag ef yn ystod 2006/07, roedd barn yr Archwiliad Mewnol ar y systemau o reolaeth fewnol sefydlwyd gan y rheolwyr i reoli risgiau yn effeithiol, yn dda.

## ASESIAD ANGHENION A CHYNLLUN ARCHWILIAD DRAFFT AR GYFER 2007/08

**16.** Mae'r Cynllun Blynyddol Drafft ar gyfer 2007/08 ynghlwm yn Atodiad C. Diben y cynllun archwiliad blynyddol yw:-

- sefydlu blaenoriaethau archwilio ar y cyd gyda Rheolwyr yr Awdurdod Tân ac Achub yn seiliedig ar ddull yn seiliedig ar risg o bennu anghenion archwilio'r Awdurdod ar ddechrau pob blwyddyn
- pennu'r adnoddau sydd eu hangen i wneud y dyletswyddau archwilio angenrheidiol
- ffurfioli tasgau archwilio
- adolygu gwaith archwilio'r flwyddyn flaenorol

**17.** Mae'r cynllun archwilio wedi ei ddylunio fel canllaw yn unig. Gall newidiadau mewn amgylchiadau neu unrhyw ddigwyddiadau annisgwyl eraill achosi amrywiadau o'r cynllun. Mae'r cynllun ar gyfer 2007/08 wedi cael ei baratoi yn dilyn ymgynghoriad gyda Rheolwyr yr Awdurdod Tân ac Achub. Mae'r cynllun yn cynnwys amser i ddilyn argymhellion o archwiliadau blaenorol hefyd.

**18.** Mae'r Asesiad Anghenion Archwiliad Mewnol ynghlwm fel Atodiad D. Mae'r Asesiad, sy'n ymgorffori dadansoddiad risg, wedi ei gynllunio i gynnwys holl agweddau archwiliadwy gweithgaredd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a bydd yn cael ei ddefnyddio, mewn ymgynghoriad â'r rheolwyr, i hwyluso dull yn seiliedig ar risg wrth bennu anghenion archwilio'r Awdurdod ar ddechrau pob blwyddyn.

### Argymhellion

**19.** Fod gweithgaredd y Grynodeb o Archwiliad Mewnol ar gyfer 2006/07 yn cael ei nodi a'r Asesiad Anghenion a Chynllun Archwiliad Mewnol Drafft ar gyfer 2007/08 yn cael ei gymeradwyo.

MEWN CYFYNGDER Y GELWAIST